# Diweddariad 2024 y Rhwydwaith Hawliau Plant yn y Blynyddoedd Cynnar (CREYN):

Yn ystod 2024, cynhaliodd y rhwydwaith bedwar cyfarfod a rhannwyd/trafodwyd ystod o bynciau.

- **Strategaeth Tlodi Plant**

Strategaeth Tlodi Plant Cymru 2024 | LLYW.CYMRU

Cafwyd cipolwg ar y strategaeth gan Swyddfa'r Comisiynydd Plant a bu'r drafodaeth â'r aelodau yn canolbwyntio ar effaith y strategaeth ar Hawliau yn y Blynyddoedd Cynnar.

- **Fframwaith NYTH**

Fframwaith NYTH (iechyd meddwl a lles): cyflwyniad | LLYW.CYMRU

Cafwyd trosolwg o'r Fframwaith a'i weithrediad gan Millie Boswell, Llywodraeth Cymru. Bu cyfle i'r aelodau drafod y mater a gofyn rhagor o gwestiynau.

- **Fframwaith Gweithredu y Blynyddoedd Cynnar**

phw.nhs.wales/topics/the-first-1000-days-programme/resources/the-first-1000-days-a-golden-opportunity-to-build-a-fairer-future-infographic/

Darparodd Iechyd Cyhoeddus Cymru drosolwg o'r gwaith maen nhw'n ei gyflawni wrth gydweithio i ddatblygu fframwaith gweithredu ar y cyd i amddiffyn a gwella iechyd a lles yn y blynyddoedd cynnar (0-7) yng Nghymru. Gofynnwyd i'r aelodau roi sylwadau ar y themâu sy'n datblygu ar gyfer y gwaith hwn.

- **Cyfranogiad Plant mewn Addysg Plentyndod Cynnar**

Rhannodd Nadine Correia drosolwg manwl o'i gwaith ymchwil sy'n canolbwyntio ar Gyfranogiad Plant mewn Addysg Plentyndod Cynnar: Pontio Hawliau, Ymchwil ac Arferion gyda Chipolygon o Bortiwgal.

- ***Toddlers, tech and talk***

[Toddlers, Tech and Talk: astudiaeth arloesol o sut mae plant dan dair oed yn defnyddio technoleg – Prifysgol Abertawe]

Rhannodd yr Athro Janet Goodall, Prifysgol Abertawe drosolwg o waith ymchwil *Toddler, tech and talk*, a'r cipolygon a gafwyd hyd yn hyn. Cafwyd trafodaeth ehangach ynghylch hawliau digidol [Hawliau Digidol Plant.pdf]

**Adduned Llais y Baban**

Mae grŵp llywio sy'n cynnwys aelodau CREYN wedi'i sefydlu ac ar ôl sicrhau cyllid trwy Brifysgol Abertawe a Plant yng Nghymru, mae'r gwaith ymgynghori ynghylch yr adduned ar waith.

Nodau'r adduned yw:

- Disgrifio'r hyn y dylai babanod ei ddisgwyl gan y bobl o'u cwmpas.
- Cefnogi llais y baban mewn ystod o sefyllfaoedd ac amgylcheddau a galluogi gwasanaethau a chymunedau i fodloni anghenion penodol babanod.
- Bod yn offeryn sy'n galluogi pawb i ddeall bod babanod yn gyfathrebwyr medrus sydd â'u meddwl eu hunain, a llais y mae'n rhaid gwrando arno.

Bydd ail gam yr ymgynghoriad, a fydd yn cynnwys gweithdai a grwpiau ffocws, yn cael ei gynnal ym mis Chwefror, ac mae cynlluniau i lansio'r Adduned yn Ebrill/Mai 2025.

**Taflenni Hawliau Plant**

Bu aelodau CREYN yn cefnogi ac yn cyfrannu at ddatblygu taflenni Hawliau Plant i gefnogi gwaith y dull gweithredu Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar ar gyfer plant 0-5 oed yng Nghymru. Mae'r taflenni a ddatblygwyd yn rhoi sylw i'r canlynol:

- beth yw Hawliau Plant,
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn,
- sut i gefnogi hawliau babanod a phlant ifanc 0-5 oed

Mae'r [daflen A3] wedi cael ei datblygu ar gyfer ymarferwyr ac mae'r pedair [taflen A4] wedi cael eu datblygu ar gyfer rhieni. Mae'r ddwy set yn cwmpasu Dyma fi! (0-12 mis) Rwy'n archwilio! (1-2 oed) Edrychwch arna i nawr! (2-3 oed) a Gwyliwch fi'n mynd, dyma fi'n dod! (3-5 oed).

**Cynhadledd CREYN**

Trafodwyd y cynlluniau ar gyfer cynhadledd 2025 a chytunwyd ar y thema a'r dyddiad. Cynhelir y gynhadledd ar 21 Mai, a'i theitl fydd 'Rhoi Hawliau ar Waith yn y Blynyddoedd Cynnar – Arfer sy'n cael ei Lywio gan Ymchwil'.

**Hysbyseb CREYN**

Lluniwyd hysbyseb/taflen i recriwtio aelodau newydd i'r Rhwydwaith ac yn sgîl hynny, croesawyd nifer o aelodau newydd, o Iechyd Cyhoeddus Cymru i Ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar.
Mae'r Rhwydwaith yn agored i unrhyw weithwyr proffesiynol sydd â diddordeb mewn Hawliau yn y Blynyddoedd Cynnar.



Plant yng Nghymru | Rhwydwaith Hawliau Plant yn y Blynyddoedd Cynnar (CREYN)